



## Gwybodaeth i Rieni Bl 5 a 6 - Tymor yr Hydref- 2018

### IAITH/ DYNIAETHAU -

Cymraeg - Gweithgareddau ABACH i ddod i adnabod ein hunain a'n gilydd gan gynnwys ysgrifennu Blog.  
Saesneg - Gweithgareddau sydd yn cynnwys ysgrifennu adroddiad llygad dyst yn dilyn gwyllo morfilod oddi ar gwch pleser ac astudiaeth o fywyd ffermwraig Masnach Deg.

### GWAITH CARTREF -

Gosodir gwaith cartref ar **ddydd Gwener** a dylid ei ddychwelyd erbyn y **dydd Mercher canlynol**.  
Er bod eich plentyn yn mynd yn hŷn rydym yn gwerthfawrogi'r amser rydych yn ei roi efo'ch plentyn i'r gwaith cartref. Diolch am eich cefnogaeth.

**TECHNOLEG GWYBODAETH** - Defnyddio amryw o raglenni er mwyn diwallu gofynion y Cwricwlwm o fewn yr holl bynciau. Byddwn yn defnyddio TGCh yn ddyddiol yn ystod y gwersi.

### DYLUNIO a THECHNOLEG a Chelf—

Gweithgareddau thematig yn seiliedig ar waith Masnach Deg

**CERDDORIAETH** - Gwarndo, Cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth thematig sydd yn clymu i'r thema. Edrych ar arferion cerddoriaeth y chwarelwyr a'r ffordd yr oedd cerddoriaeth yn cael ei ddefnyddio i godi ysbryd.

### GWYDDONIAETH -

- Ymchwio i weld yr effaith mae Ymarfer Corff yn ei gael ar y galon.
- Deall sut mae'r galon yn gweithio.

## Llechen Lan

### MATHEMATEG -

Byddwn yn gweithredu sesiynau rhifedd drwy roi ffocws i strategaethau mathemateg pen, sgiliau ymchwiliol mathemategol a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd. Byddwn yn asesu'r disgyblion drwy ddefnyddio dulliau ymarferol a phroffion NFER.

Bydd pwyslais yn cael ei roi ar eich plentyn i ymarfer tablau llusoi yn gyson gartref.

**DARLLEN** - Un o'r ffyrdd gorau y gallwch helpu eich plentyn i wneud yn dda yn yr ysgol ydy drwy ei annog i fwynhau darllen. Gall hyn olygu darllen cylchgronau, papur newydd, nofelau, comic, atlasau, a'r ŵe. Dewiswch destunau sydd wrth fodd eich plentyn. Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n mwynhau darllen yn gwneud yn well yn yr ysgol, ac mae gan rieni ran allweddol wrth helpu i ddatblygu'r cariad yma at ddarllen. Bydd gofyn i bob plentyn ddod a'u cofnod darllen i'r ysgol bob Dydd Gwener.

### ADDYSG GORFFOROL

Uned o waith ffitrwydd.

Bydd gwersi Addysg Gorfforol yn digwydd ar  
Ddydd Llun, Dydd Mawrth a  
Dydd Mercher

### ER GWYBODAETH (*Teithiau*)

Bydd gwybodaeth ynglŷn â thripiâu'r tymor yn cael eu rhannu.